SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) 2016-2017

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

© Hawlfraint y Goron 2017 WG31431 ISBN digidol 978-1-4734-9275-2

# Adroddiad Archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol

| | |
|---|---|
| Rhif fersiwn: | 1 |
| Cyhoeddwyd gyntaf: | 21 Mawrth 2017 |
| Paratowyd gan: | Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol |

## *Rhestr Ddosbarthu:*

*Goruchwylwyr Bydwragedd*

*Pennaeth Bydwreigiaeth*

*Cyfarwyddwr Nyrsio*

*Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd*

**Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: www.agic.org.uk**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 4
2 Y Safonau ar gyfer Goruchwylio .......... 4
3. Nodau Archwilio'r AGLl .......... 5
4. Methodoleg .......... 5
5 Y Broses Archwilio .......... 5
6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr AGLl .......... 6
7 Asesiad o Gydymffurfiad â'r Rheolau a Safonau Bydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012) .......... 7
8. Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg .......... 15
9 Crynodeb o Argymhellion .......... 17
10 Monitro .......... 19
11. Casgliad .......... 20

# 1. Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n pennu'r rheolau a'r safonau ar gyfer gweithrediad Awdurdodau Goruchwylio Lleol a goruchwylio bydwragedd. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) yn atebol yn broffesiynol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Swyddogaeth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yw sicrhau bod goruchwyliaeth statudol o fydwragedd ar waith i sicrhau y darperir gofal bydwreigiaeth diogel ac o ansawdd uchel i fenywod.

Penodir Goruchwylwyr Bydwragedd gan yr AGLl, y mae ei swyddogaeth yn rhan o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Prif gyfrifoldeb yr AGLl yw amddiffyn y cyhoedd trwy fonitro ansawdd arfer bydwreigiaeth trwy fecanwaith goruchwyliaeth statudol i fydwragedd. Mae'r AGLl yn penodi Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol i gyflawni swyddogaethau'r AGLl yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i'r holl fydwragedd sy'n ymarfer yn y Deyrnas Unedig fod â Goruchwylydd Bydwragedd penodol. Bydwraig sydd wedi cymhwyso ers o leiaf tair blynedd ac wedi cyflawni cwrs paratoi mewn goruchwyliaeth bydwreigiaeth yw Goruchwylydd Bydwragedd (Rheol 8, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Mae pob goruchwylydd yn rhywun y gall bydwragedd fynd ati am gyngor, cyfarwyddyd a chymorth. Bydd y Goruchwylydd Bydwragedd yn monitro gofal trwy gyfarfod â phob bydwraig yn flynyddol (Rheol 9, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012), archwilio gwaith cadw cofnodion y bydwragedd, ac ymchwilio i unrhyw adroddiadau o broblemau/pryderon yn ymarferol. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau difrifol a hysbysu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl amdanynt (Rheol 10, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012).

Mae Rheol 7 y *Rheolau a Safonau Bydwragedd* (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl gwblhau archwiliad blynyddol o arfer a goruchwyliaeth bydwragedd yn ei ardal er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni. Mae adroddiad archwilio blynyddol yr AGLl yn hysbysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Rheol 13).

# 2 Y Safonau ar gyfer Goruchwylio

1. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ar gael i gynnig cyfarwyddyd a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaeth mamolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y ddarpariaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar fenywod.
2. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn atebol yn uniongyrchol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ynghylch pob mater sy'n ymwneud â goruchwyliaeth statudol bydwragedd ac mae fframwaith lleol yn bodoli i gefnogi'r swyddogaeth statudol.
3. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol ac yn meithrin darpar arweinwyr.
4. Mae'n hawdd mynd at Oruchwylwyr Bydwragedd ac maent yn hygyrch i fydwragedd i'w cynorthwyo yn eu harfer.
5. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo bydwragedd i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

   *Rheolau a safonau bydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2012)*

# 3. Nodau Archwilio'r AGLl

Diben archwiliad blynyddol 2016 -17 yw:

- Cadarnhau bod argymhellion yr archwiliad blaenorol wedi cael eu cyflawni
- Cadarnhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith ar gyfer diogelwch mamau a babanod
- Adolygu effaith goruchwyliaeth ar arfer bydwreigiaeth
- Gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus
- Sicrhau bod yr arfer bydwreigiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i anghenion menywod
- Asesu a datblygu dealltwriaeth o wybodaeth cyfranogwyr am y newidiadau i oruchwyliaeth statudol.

Bydd y canfyddiadau archwilio o bob cwr o Gymru yn hysbysu'r cyfeiriad teithio i gynorthwyo bydwragedd pan fydd newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud i adael goruchwyliaeth statudol yn 2017.

# 4. Methodoleg

Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLl yn defnyddio dilysiad o dystiolaeth gan dîm archwilio'r AGLl. Bydd hunanadolygiad ar ffurf cyflwyniad yn cael ei roi i'r tîm adolygu gan gynnwys llwyddiant a heriau. Cydnabyddir fod hunanadolygu yn ddull grymus sy'n ysgogi datblygiad proffesiynol ac yn creu ymwybyddiaeth o atebolrwydd personol.

Bydd adolygiad tystiolaeth cyn-archwilio yn cael ei gwblhau gan y tîm adolygu gan gynnwys adolygiad cymheiriaid o gydymffurfiad y goruchwylydd bydwragedd unigol â phroses ymchwilio'r AGLl.

Yn y flwyddyn olaf hon o archwiliadau'r AGLl o oruchwyliaeth statudol, mae'r dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar y swyddogaeth statudol graidd fel y'i disgrifir yn y Rheolau a Safonau Bydwragedd.

# 5 Y Broses Archwilio

Ar gyfer 2016/17, roedd y broses archwilio yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Adolygiad o dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o gydymffurfiad â'r Rheolau a Safonau Bydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012) gan gynnwys adolygiad o gynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLl yn dilyn ymweliad archwilio 2015/16
- Ymweliad archwilio yn cynnwys holi bydwragedd a menywod.

## 6 Ymweliad Archwilio Blynyddol yr AGLl

Cynhaliwyd ymweliad archwilio blynyddol yr AGLl ar 4 a 5 Hydref 2016 gan Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl. Cynorthwywyd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl gan y Goruchwylwyr Bydwragedd Cymheiriaid Karen Evans a Susan Rees, gan adolygydd yr AGLl Elizabeth David a chan Sadie Silcox, cynorthwyydd tîm yr AGLl.

Susan Peterson a Lynn Smith-Hurley oedd tîm goruchwylio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd 205 o fydwragedd yn gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ddiwedd Chwarter Dau (30 Medi 2016) ac 1.6 o Oruchwylwyr Bydwragedd cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cyfateb i un Goruchwylydd Bydwragedd i 12 bydwraig, sy’n cyd-fynd â’r gymhareb ofynnol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o un Goruchwylydd Bydwragedd i 15 bydwraig.

Mae gan yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd gweithredol lwyth achosion o fydwragedd ac maent yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu cyngor a chefnogaeth oruchwylio 24 awr trwy rota ar-alwad Cymru gyfan.

Cyfrannodd yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd gweithredol at y gwaith o gasglu tystiolaeth a datblygu’r cyflwyniad yn yr ymweliad archwilio. Roedd hyn yn cynnwys llwyddiannau a heriau’r tîm trwy gydol y flwyddyn 2015/16.

# 7 Asesiad o Gydymffurfiad â'r Rheolau a Safonau Bydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012)

**Rheol**

(1) Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyhoeddi:

(a) enw a chyfeiriad ei swyddog bydwreigiaeth y dylid cyflwyno hysbysiad iddo o dan Reol 3(2) neu (3);

(b) y dyddiad y dylai bydwraig roi hysbysiad yn ei erbyn o dan Reol 3(3).

(1A) Mae'n rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr gyhoeddi:

(a) enw a chyfeiriad pob un o'i swyddogion bydwreigiaeth y dylid cyflwyno hysbysiad o dan Reol 3(2) neu (3) i un ohonynt;

(b) y dyddiad y mae'n rhaid i fydwraig wneud hysbysiad o dan Reol 3(3) yn ei erbyn.

(2) Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol hysbysu'r Cyngor, ar ffurf ac amlder sy'n ofynnol gan y Cyngor, am unrhyw hysbysiad a roddir iddo o dan Reol 3.

**Safon Awdurdod Goruchwylio Lleol**

1 Er mwyn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd, mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau bod:

1.1 Hysbysiadau bwriad i ymarfer yn cael eu hanfon i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth erbyn y dyddiad cyflwyno blynyddol a nodir gan y Cyngor.

1.2 Hysbysiadau bwriad i ymarfer a dderbynnir ar ôl y dyddiad cyflwyno blynyddol yn cael eu hanfon i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

| Disgwyliad yr AGLI | Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio |
|---|---|
| Byddai ffurflenni hysbysiad Bwriad i Ymarfer wedi cael eu hanfon at yr holl fydwragedd y mae eu henwau yn ymddangos ar y gofrestr sydd ar waith o 31 Mawrth 2015. Er mwyn i fydwragedd fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiad Bwriad i Ymarfer, mae'n rhaid eu bod wedi cofrestru'n weithredol ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yn bwriadu ymarfer bydwreigiaeth.<br><br>Cyn llofnodi'r Bwriad i Ymarfer, mae'n rhaid i'r Goruchwylydd Bydwragedd penodol fod wedi cynnal asesiad o gydymffurfiad y fydwraig â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal cofrestriad bydwreigiaeth ac mae'n rhaid iddi gadarnhau ei bod yn gymwys i ymarfer fel bydwraig. Mae'n rhaid i'r Goruchwylydd Bydwragedd penodol gofnodi'r dystiolaeth y mae wedi ei | Canfuwyd fod yr holl fydwragedd wedi cyflwyno eu ffurflenni Bwriad i Ymarfer i oruchwylydd a'u bod yn gymwys i ymarfer ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br><br>Gallai'r tîm esbonio proses eglur a chadarn ar gyfer cyflwyno ffurflenni Bwriad i Ymarfer.<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn sicrhau bod bydwragedd yn cydymffurfio â'r safon Addysg ac Ymarfer Ôl-gofrestru cyn llofnodi eu ffurflenni Bwriad i Ymarfer trwy gyfeirio at eu cofnodion adolygiad blynyddol unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth am eu DPP a'i horiau ymarfer. |

| | |
|---|---|
| hadolygu ar gyfer bob bydwraig yn nodi sut y mae'n bodloni gofynion Addysg ac Ymarfer Ôl-gofrestru y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o 35 awr o weithgarwch dysgu (DPP) a 450 awr o ymarfer cofrestredig ym mhob cylch Hysbysiad Ymarfer 3 blynedd. | |

**Arfer Nodedig**

- **Yn cydymffurfio 100% â chofnodion a dileadau Bwriad i Ymarfer**
- **Yn cydymffurfio 100% â datganiadau Bwriad i Ymarfer misol**

**Meysydd i'w gwella**

- **Amherthnasol**

**Canlyniad**

**Cydymffurfiwyd â Rheol 4**

## Rheol 6 Cofnodion

**Rheol**

(1) Mae'n rhaid i fydwraig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod yr holl gofnodion yn ymwneud â gofal neu gyngor a roddwyd i fenyw neu ofal a roddwyd i faban, ar ôl eu rhyddhau o'r gofal hwnnw:

(a) yn cael eu trosglwyddo i gyflogwr y fydwraig i gael eu storio'n ddiogel; neu

(b) yn cael eu storio'n ddiogel gan y fydwraig ei hun os yw'n hunangyflogedig: ond os nad yw'r fydwraig yn gallu gwneud hyn, byddant yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol ar gyfer ei phrif ardal ddaearyddol o arfer i gael eu storio'n ddiogel.

(2) Pan na fydd bydwraig wedi ei chofrestru gyda'r Cyngor mwyach, mae'n rhaid iddi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gofal neu'r cyngor a roddwyd i fenyw neu ofal a roddwyd i faban yn cael eu trosglwyddo i gael eu storio'n ddiogel i'r awdurdod goruchwylio lleol a oedd, cyn i'w chofrestriad ddod i ben, yn awdurdod goruchwylio lleol y fydwraig ar gyfer ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol.

**Safon Awdurdod Goruchwylio Lleol**

1 Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau lleol ar gyfer trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth gan fydwragedd hunangyflogedig a ddylai gynnwys:

1.1 Pryd y dylid trosglwyddo'r cofnodion.
1.2 I bwy y dylid trosglwyddo'r cofnodion.
1.3 Dulliau i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cludo'n ddiogel.
1.4 Dogfennau i gofnodi trosglwyddiad o'r fath.

**Safon bydwragedd**

1 Mae'n rhaid cadw'r holl gofnodion yn ymwneud â gofal y fenyw neu'r baban yn ddiogel am 25 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith os oes gwybodaeth glinigol ynddynt.

2 Dylai bydwragedd hunangyflogedig sicrhau y gall menywod gael mynediad at eu cofnodion a dylent eu hysbysu am leoliad eu cofnodion os caiff y rhain eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol.

| Disgwyliad yr AGLl | Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio |
|---|---|
| Mae gan fydwragedd gyfrifoldeb i gadw unrhyw gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth y gellir adnabod unigolion ohoni a/neu wybodaeth glinigol yn ddiogel (mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith).<br><br>Mae'n rhaid i Oruchwylwyr Bydwragedd hysbysu bydwragedd sy'n gweithio mewn ymarfer hunangyflogedig pryd y dylent drosglwyddo cofnodion i'r AGLl a'u gwneud yn ymwybodol o bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU ar drosglwyddo cofnodion bydwragedd ar gyfer bydwragedd hunangyflogedig. | Canfuwyd fod yr holl gofnodion mamolaeth wedi eu storio'n ddiogel yn ystod yr ymweliad archwilio. Hap-archwiliwyd y dull o storio nodiadau yn yr adran famolaeth gan y tîm archwilio ar ddiwrnod yr archwiliad.<br><br>Mae'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'r broses ofynnol ar gyfer cofnodion bydwragedd hunangyflogedig. |

**Arfer Nodedig**

- **Proses ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion i AGIC**

**Meysydd i'w gwella**

- **Amherthnasol**

**Canlyniad**

**Cydymffurfiwyd â Rheol 6**

## Rheol 8 Goruchwylwyr Bydwragedd

**Rheol**

(1) Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol benodi yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ystyried sy'n nifer briodol o oruchwylwyr bydwragedd i oruchwylio bydwragedd sy'n ymarfer yn ei ardal.
(2) Mae'n rhaid i oruchwylydd bydwragedd:
(a) fod yn fydwraig weithredol; a
(b) bodloni'r safonau gofynnol o ran profiad ac addysg ar gyfer y swyddogaeth goruchwylydd bydwragedd fel y pennir gan y Cyngor yn gyfnodol.
(3) Ar ôl ei phenodi, mae'n rhaid i oruchwylydd bydwragedd gwblhau cyfnodau priodol o ddysgu perthnasol sy'n gysylltiedig â goruchwylio bydwragedd fel y bydd yn ofynnol gan y Cyngor yn gyfnodol.

**Safonau Awdurdod Goruchwylio Lleol**

1 Caiff goruchwylwyr bydwragedd eu penodi gan yr awdurdod goruchwylio lleol, ac maent yn atebol iddo ynghylch bob mater sy'n ymwneud â goruchwyliaeth statudol bydwragedd. Mae'n rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol:

1.1 Gyhoeddi polisi yn nodi ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer penodi unrhyw oruchwylydd bydwragedd newydd yn ei ardal.

1.2 Cynnal rhestr gyfredol o oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.

1.3 Sicrhau'r ddarpariaeth o chwe awr o leiaf o ddatblygiad proffesiynol parhaus fesul blwyddyn ymarfer.

2 I gael ei phenodi am y tro cyntaf fel goruchwylydd bydwragedd, mae'n rhaid i fydwraig:

2.1 Feddu ar o leiaf tair blynedd o brofiad fel bydwraig weithredol. Mae'n rhaid bod o leiaf un o'r rheini wedi bod yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd yn syth cyn y dyddiad penodi cyntaf.

3 Mae'n rhaid ei bod hefyd:

3.1 Wedi cwblhau rhaglen addysg gymeradwy ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn ystod y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn dyddiad y penodiad cyntaf; neu

3.2 Pan fo'n fwy na thair neu'n llai na phum mlynedd sydd wedi mynd heibio ers iddi gwblhau rhaglen addysg gymeradwy ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd yn llwyddiannus, wedi cydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.

4 Ar gyfer unrhyw benodiad dilynol fel goruchwylydd bydwragedd, mae'n rhaid ei bod yn fydwraig weithredol ac:

4.1 Wedi bod yn ymarfer fel goruchwylydd bydwragedd neu swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol yn ystod y cyfnod o dair blynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol; neu

4.2 Pan fo wedi ymarfer fel goruchwylydd bydwragedd neu swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol dim ond yn ystod cyfnod sy'n fwy na thair blynedd neu'n llai na phum mlynedd yn syth cyn y dyddiad penodi dilynol, wedi cydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.

5 Mae'n rhaid i oruchwylydd bydwragedd allu bodloni'r cymwyseddau a nodir mewn Safonau ar gyfer paratoad ac ymarfer goruchwylwyr bydwragedd (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2006).

| Disgwyliad yr AGLl | Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio |
|---|---|
| Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd dan hyfforddiant eu recriwtio a'u cynorthwyo'n briodol ar ôl cwblhau'r cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd yn llwyddiannus.<br><br>Mae'n rhaid i bob Goruchwylydd Bydwragedd ddangos gallu i fodloni'r cymwyseddau a nodir yn Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd.<br><br>Mae rhestr gyfredol o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ar gronfa ddata'r AGLl a bydd yn cael ei hadrodd yn adroddiad archwilio'r AGLl. | Caiff y niferoedd cywir o Oruchwylwyr Bydwragedd eu penodi yn y bwrdd iechyd.<br><br>Mae holl aelodau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau a chofnodi eu gweithgareddau Addysg ac Ymarfer Ôl-gofrestru gofynnol.<br><br>Mae holl aelodau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi hunanasesu eu cymhwysedd i gyflawni'r swyddogaeth ac yn meddu ar gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu .<br><br>Roedd y rhestr o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gronfa ddata'r AGLl yn gywir ar adeg yr archwiliad. |

**Arfer Nodedig**

- **Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi sefydlu ei hun yn effeithiol**

| Meysydd i'w gwella |
|---|
| • **Parhau i wella amlygrwydd clinigol** |
| **Canlyniad** |
| **Cydymffurfiwyd â Rheol 8** |

## Rheol 9 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol am Oruchwylio Bydwragedd

**Rheol**

Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau bod:
(a) gan bob bydwraig weithredol yn ei ardal oruchwylydd bydwragedd penodol o blith y goruchwylwyr bydwragedd a benodwyd gan yr awdurdod goruchwylio lleol o ran ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol;
(b) goruchwylydd bydwragedd yn cyfarfod â phob bydwraig y mae'n oruchwylydd bydwragedd ar ei chyfer o leiaf unwaith y flwyddyn, i adolygu ymarfer y fydwraig ac i nodi ei hanghenion addysg;
(c) yr holl oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal yn cadw cofnodion o'u gweithgareddau goruchwylio, gan gynnwys unrhyw gyfarfod gyda bydwraig; a
(ch) bod gan yr holl fydwragedd gweithredol yn ei ardal fynediad 2 awr at oruchwylydd bydwragedd, boed honno'n oruchwylydd penodol y fydwraig neu'n oruchwylydd bydwragedd arall.

**Safonau Awdurdod Goruchwylio Lleol**

1 Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol:
- 1.1 Sicrhau bod fframwaith lleol yn bodoli i ddarparu:
  - 1.1.1 Goruchwyliaeth deg ac effeithiol i'r holl fydwragedd sy'n gweithio yn yr awdurdod goruchwylio lleol.
  - 1.1.2 Cymorth i fydwragedd dan hyfforddiant i'w galluogi i gael mynediad at oruchwylydd bydwragedd.
- 1.2 Sicrhau bod y gymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol ac nad yw'n peryglu diogelwch menywod. Ni fydd y gymhareb hon yn fwy nag 1:15 fel rheol.
- 1.3 Cyflwyno strategaeth i alluogi cyfathrebiad effeithiol rhwng yr holl oruchwylwyr bydwragedd. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu â goruchwylwyr mewn awdurdodau goruchwylio lleol eraill.
- 1.4 Monitro a sicrhau y darperir adnoddau priodol i alluogi goruchwylwyr bydwragedd i gyflawni eu swyddogaeth.
- 1.5 Cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb o ran y dull a ddilynir gan oruchwylwyr bydwragedd yn eu hardal o gynnal adolygiad blynyddol o arfer bydwraig. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys bod y goruchwylydd yn cynnal asesiad o gydymffurfiad y fydwraig â'r gofynion i gynnal cofrestriad bydwreigiaeth.
- 1.6 Sicrhau bod systemau lleol ar gael i alluogi goruchwylwyr bydwragedd i gynnal cofnodion o'u holl weithgareddau goruchwylio a'u storio'n ddiogel.

| Disgwyliad yr AGLI | Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio |
|---|---|
| Ceir fframwaith lleol ar gyfer goruchwylio.<br><br>Mae'n rhaid bod gan bob bydwraig dan | Mae Goruchwylydd Bydwragedd ar gael ac yn hygyrch 24 awr y diwrnod trwy system ar-alwad. Mae manylion cyswllt |

| | |
|---|---|
| hyfforddiant fynediad at Oruchwylydd Bydwragedd a dylai fod systemau lleol ar gyfer hyn.<br><br>Mae'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i gyd-fynd â'r gymhareb a argymhellir o un Goruchwylydd Bydwragedd i 15 bydwraig.<br><br>Dylid adolygu adnoddau ar gyfer goruchwylio ym mhob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Mae adolygiadau blynyddol yn seiliedig ar bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU.<br><br>Datblygwyd systemau lleol i sicrhau bod gan Oruchwylwyr Bydwragedd systemau storio diogel ar gyfer unrhyw gofnodion goruchwylio. | ar gael yn y rhan fwyaf o fannau clinigol i fydwragedd ac mae'r broses ar gyfer cysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd i'w gweld ar wefan y bwrdd iechyd.<br><br>Roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu cynnig tystiolaeth o bresenoldeb o 75% mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd ar draws y tîm.<br><br>Mae gan bob bydwraig oruchwylydd bydwragedd penodol ac roedd tystiolaeth o hyn yng nghronfa ddata'r AGLl.<br><br>Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn addysgu bydwragedd dan hyfforddiant am oruchwyliaeth yn y man clinigol ac yn y brifysgol. Mae bydwragedd dan hyfforddiant yn gwybod sut i gysylltu â'u Goruchwylydd Bydwragedd lleol ac ar-alwad os oes angen.<br><br>Un i 12 yw'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd gyffredinol, sy'n cyd-fynd â'r gymhareb a argymhellir.<br><br>Cynhelir pob adolygiad blynyddol yn unol â Pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU a chadarnhawyd hyn gan hap-archwiliad o gronfa ddata'r AGLl. Yn anffodus, nid oedd dros hanner y dogfennau a hap-archwiliwyd wedi cael eu lanlwytho i gronfa ddata'r AGLl, ond roedd tystiolaeth ychwanegol i ardystio bod yr adolygiad blynyddol staff wedi cael ei gynnal ar y dudalen we briodol.<br><br>Caiff cofnodion goruchwylio eu storio'n ddiogel ar gronfa ddata'r AGLl neu ar system iShare Llywodraeth Cymru. Caiff copïau caled eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau storio wedi eu cloi. |
| **Arfer Nodedig** | |
| • **Cydymffurfiad 100% o ran cynnal adolygiadau blynyddol staff** | |
| **Canlyniad** | |
| | |

| Mae angen gwella o ran Rheol 9 |
| --- |
| • Dylid lanlwytho'r holl ddogfennau adolygiad blynyddol staff i gronfa ddata'r AGLl yn brydlon. |

## Rheol 10 Cyhoeddi Gweithdrefnau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol

**Rheol**
Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi ei weithdrefn ar gyfer:
(a) hysbysu am bob digwyddiad andwyol sy'n ymwneud ag arfer bydwreigiaeth neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwragedd gweithredol yn ei ardal;
(b) ymchwilio i unrhyw adroddiadau a wneir o dan baragraff (a); a
(c) ymdrin â chwynion neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn ei swyddog bydwreigiaeth neu oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.

**Hysbysu am ddigwyddiadau andwyol, cwynion neu bryderon yn ymwneud ag arfer bydwreigiaeth**
**Safon Awdurdod Goruchwylio Lleol**
1 Mae'n rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol ddatblygu system gyda chyflogwyr bydwragedd a bydwragedd hunangyflogedig i sicrhau bod swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol yn cael ei hysbysu am bob digwyddiad andwyol, cwyn neu bryder yn ymwneud ag arfer bydwreigiaeth neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig.

**Ymchwiliadau goruchwylio**
**Safon Awdurdod Goruchwylio Lleol**
1 Mae'n rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion neu bryderon yn ymwneud ag arfer bydwreigiaeth neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig. Mae'n rhaid i'r canllawiau hyn:
1.1 Ddarparu ar gyfer dull agored, tryloyw, teg ac amserol, sy'n dangos prosesau gwneud penderfyniadau cadarn sy'n gwrthsefyll craffu allanol.
1.2 Cynnig cyfle i'r fydwraig gymryd rhan yn yr ymchwiliad.
1.3 Cyflwyno'r camau gofynnol a chanlyniadau posibl yn dilyn ymchwiliad.
1.4 Darparu ar gyfer proses apeliadau.

| Disgwyliad yr AGLl | Tystiolaeth a Chanfyddiadau Archwilio |
| --- | --- |
| Dylai fod cofnod o'r holl ymchwiliadau a gynhelir, eu canlyniadau a'r amser a gymerwyd iddynt gael eu cwblhau. Dylai fod tystiolaeth o adolygiad rheolaidd o'r ymchwiliadau ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg mewn arfer bydwreigiaeth.<br><br>Dylid uwchgyfeirio argymhellion gwasanaeth sy'n esblygu o ymchwiliadau at y cyflogwr a dylent gael eu monitro gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Ceir tystiolaeth o adolygiad systematig o arfer bydwreigiaeth yn ôl y gofyn.<br><br>Dylai fod rhyngwyneb effeithiol, tryloyw a rennir rhwng goruchwylio a llywodraethu | Caiff ymchwiliadau goruchwylio eu cynnal mewn byrddau iechyd allanol i leihau rhagfarn a sicrhau cymaint o gymorth lleol â phosibl i'r fydwraig. Mae'r tîm yn sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob agwedd ac eithrio prydlondeb.<br><br>Cynhaliwyd tri ymchwiliad allanol gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond dim ond un a gwblhawyd yn unol â'r amserlen 60 diwrnod a argymhellir.<br><br>Ceir system gadarn ar gyfer olrhain ymchwiliadau a ddefnyddir yn gyson gan yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd. |

| | |
|---|---|
| clinigol. | Caiff canfyddiadau ymchwiliadau eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd fel y gellir nodi tueddiadau a rhoi unrhyw ddysgu ar waith trwy newid arferion a chynllunio gweithredol.<br><br>Gwneir gwaith dilynol ar unrhyw argymhellion sefydliadol sy'n deillio o ymchwiliadau goruchwylio gyda'r rheolwyr.<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu mamolaeth, adolygiadau digwyddiadau a'r grŵp polisi, ac yn cyfrannu atynt. Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd fynediad uniongyrchol at adroddiadau Datix erbyn hyn, ac felly gallant sefydlu adolygiadau achos eu hunain.<br><br>Ceir system effeithiol ar gyfer rhybuddio Goruchwylwyr Bydwragedd am bob digwyddiad mamolaeth andwyol, sy'n caniatáu adolygiad prydlon, cwblhau 'offeryn gwneud penderfyniadau' pan ddynodir a chychwyn ymchwiliad goruchwylio. Mae'r AGLl yn cymryd rhan yn y broses hon ac mae ganddo drosolwg ar adroddiadau ymchwilio ac yn cytuno unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer bydwragedd o ganlyniad i ymchwiliad goruchwylio. |

**Arfer Nodedig**

- **Mae'r holl ddogfennau ymchwilio gofynnol ar gael ac yn cael eu storio'n ddiogel**
- **Mae gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd fynediad at adroddiadau digwyddiadau Datix**

**Canlyniad**

**Mae angen gwella o ran Rheol 10**

- Dylid cwblhau'r holl ymchwiliadau goruchwylio o fewn 60 diwrnod ond cydnabyddir bod hon yn broblem Cymru gyfan.

# 8. Canfyddiadau'r Adolygydd Lleyg

Cymerodd yr Adolygydd Lleyg ran lawn yn yr archwiliad, gan gynnwys:

- Trafod bodlonrwydd â'r gwasanaeth ac ymwybyddiaeth o oruchwyliaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth ar draws dau safle mewn amgylcheddau cynenedigol ac ôl-enedigol
- Arsylwi'r amgylcheddol clinigol cyffredinol, ac asesu amlygrwydd goruchwyliaeth mewn mannau cyhoeddus
- Gwneud gwaith ymchwil cyn-archwilio o ran gwybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd yn ymwneud â goruchwylio, ac ymwybyddiaeth y switsfwrdd o'r rhif ar-alwad
- Yn ystod yr archwiliad, gweithio gyda Goruchwylydd Bydwragedd allanol, i gynnal cyfweliadau gyda:
    - bydwragedd ar amrywiaeth o lefelau
    - Goruchwylwyr Bydwragedd.

Cyfwelwyd chwech o fenywod (a'u teuluoedd mewn rhai achosion) ar draws ddau safle yn ystod y broses archwilio ac roedd un ohonynt yn ymwybodol o oruchwylio, trwy ddarllen y daflen "A ydym ni'n cyflawni?", sydd ar gael ar y ward cynenedigol. Er bod hyn yn ostyngiad o ryw fymryn i nifer y menywod neu bartneriaid sy'n ymwybodol o oruchwyliaeth yn yr archwiliad diwethaf, mae'r sampl yn fach ac mae'n dal i ddangos mwy o ymwybyddiaeth o oruchwyliaeth nag mewn archwiliadau tair neu bedair blynedd yn ôl. Er bod y wybodaeth am oruchwyliaeth yn isel, nododd pedair o'r chwech o fenywod rywun y byddent yn gyfforddus yn trafod pryderon ag ef, pe bai angen, er nad oedd unrhyw gysondeb o ran yr unigolyn a nodwyd ganddynt. Yn galonogol, nodwyd bydwragedd gan ddwy o'r menywod ac roedd yn eglur eu bod yn teimlo y gallent fynd at y tîm bydwreigiaeth gydag unrhyw bryderon.

Cysylltwyd hefyd â dwy fenyw a oedd wedi cael eu cynorthwyo gan Oruchwylydd Bydwragedd yn ystod eu beichiogrwydd a thrafodwyd eu profiadau. Roedd y ddwy fenyw yn teimlo bod eu profiadau wedi cael eu gwella o ganlyniad i'r cymorth a dderbyniwyd gan Oruchwylydd Bydwragedd. Roedd manteision cyfranogiad Goruchwylydd Bydwragedd a amlygwyd ganddynt yn cynnwys: gwell dealltwriaeth o bolisi'r ysbyty, gwybodaeth fwy cyson yn dod gan un person, parch at eu gwaith ymchwil a'u penderfyniadau eu hunain. Gwerthfawrogiad y cyswllt wyneb yn wyneb yn fawr ac roedd wedi rhoi hyder a chysur. Roedd y ddwy fenyw yn teimlo mai effaith gyffredinol cyfranogiad y Goruchwylydd Bydwragedd oedd eu gwneud i deimlo'n fwy digynnwrf drwy'r beichiogrwydd. Roedd hon yn dystiolaeth bersonol o'r angen i eiriolaeth i fenywod gael ei ddarparu gan y bwrdd iechyd a'i effaith sylweddol ar gefnogi dewis i fenywod.

Yn gyffredinol, roedd lefel bodlonrwydd menywod a'u teuluoedd gyda'u gofal yn uchel dros ben, ac nid oedd cyfran fawr o'r rhai a gyfwelwyd yn gallu awgrymu unrhyw welliannau i wasanaethau. Dywedwyd yn gyson fod y gofal gan fydwragedd yn "gynorthwyol" a "hyfryd" a nodwyd rhai bydwragedd am eu gofal rhagorol. Roedd un neu ddau o sylwadau ar welliannau i wasanaethau mamolaeth yn ymwneud â'r amser yr oedd yn ei gymryd i barcio pan gawsant eu hatgyfeirio am sganiau ychwanegol, brys a'r pryder yr oedd hyn yn ei achosi, ac un neu ddau o gamgymeriadau yn arwain at oedi atgyfeiriad at feddyg ymgynghorol a chael eu hanfon i'r safle ysbyty anghywir ar gyfer apwyntiad clinig.

Ni chynrychiolwyd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn ystod yr archwiliad hwn, ond siaradodd yr adolygydd lleyg ag aelodau o'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC), a oedd wedi cynnal ymweliadau diweddar â rhannau o'r gwasanaethau mamolaeth yn Llwynhelyg a Glangwili. Roedd gan eu hymweliadau gylch gwaith llawer ehangach na'r archwiliad hwn ac roeddent yn gallu cadarnhau bod defnyddwyr y gwasanaethau yn gyffredinol hapus â'r gofal y maent yn ei dderbyn ac na fu unrhyw broblemau penodol o ran bydwreigiaeth a godwyd yn ystod eu hymweliadau.

Roedd yr amgylcheddau clinigol oll yn lân a thaclus ac yn teimlo'n ddigynnwrf, er bod y ddau safle yn dawel yn ystod yr ymweliadau. Mae'r amgylchedd ym Mronglais yn lân iawn ac mae'n teimlo'n newydd. Ceir stensiliau hyfryd ar y waliau, yn enwedig yn uned mamolaeth Glangwili, er y gellid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddarparu rhai cyffyrddiadau meddalu. Ceir ffotograffau hyfryd yn yr Uned Dan Arweiniad Bydwreigiaeth yng Nglangwili ac mae'r ystafelloedd yno'n fwy ac yn teimlo'n fwy digynnwrf nag ym Mronglais.

Ceir gwybodaeth dda am oruchwyliaeth ar y ddau safle, ond mae hyn wedi ei dargedu at fydwragedd yn bennaf. Ni welsom unrhyw wybodaeth am oruchwyliaeth yn y mannau sy'n hygyrch i fenywod ym Mronglais yn ystod ein taith gerdded, er i ni gael ein hysbysu bod hysbysfwrdd yn y clinig cynenedigol. Nid yw ei leoliad ym mhrif ran eistedd yr ystafell aros, felly ni fydd yr holl fenywod yn ei weld yn rhwydd. Ceir hysbysfwrdd goruchwyliaeth wrth y fynedfa i Ward Dinefwr yng Nglangwili ac roedd hysbysfwrdd eglur â chopïau dwyieithog o daflen "A Ydym ni'n Cyflawni?" ar gael ac roedd y rhif ar-alwad i'w weld yn amlwg. Ni nodwyd unrhyw wybodaeth am oruchwyliaeth yn y mannau cyhoeddus yn ystod yr ymweliad â'r Uned Dan Arweiniad Bydwreigiaeth. Mae'n amlwg bod gwybodaeth ar gael ac roedd un fenyw wedi darllen y daflen "A Ydym ni'n Cyflawni?" pan oedd yn bresennol ar gyfer monitro, sy'n dangos gwerth cynnal yr hysbysfyrddau goruchwyliaeth. Byddai o fudd sicrhau bod hysbysfyrddau eglur ac amlwg ar gyfer menywod a'u partneriaid ym mhob man lle darperir gwasanaethau mamolaeth.

Ceir gwybodaeth dda am oruchwyliaeth bydwragedd yn adran mamolaeth gwefan y bwrdd iechyd ac mae'n cynnwys dolenni i'r daflen "A Ydym ni'n Cyflawni?" a manylion y rhif ar-alwad 24 awr. Mae'r wybodaeth yn gryno ac yn annerch menywod yn uniongyrchol. Ceir tri gwelliant y gellid ei wneud:

1. Mae'r daflen "A Ydym ni'n Cyflawni?" ar gael yn Saesneg yn unig a dylai fod ar gael yn y Gymraeg
2. Roedd llythrennau ar goll o'r ddolen i wefan AGIC ac felly nid yw'n gweithio, ac nid yw'n cyfeirio at yr AGLl yn benodol chwaith. Mae angen rhoi sylw i hyn
3. Mae'r ddolen i'r adroddiad archwilio yn sawl blwyddyn oed gan ei fod yn arwain at adroddiad archwilio 2013-14. Mae angen diweddaru hyn.

Roedd y cyswllt â switsfwrdd cyn yr archwiliad gyda switsfwrdd Ysbyty Bronglais. Roedd yn ymddangos fod y switsfwrdd yn adnabod y cais am y rhif ar-alwad ar gyfer y goruchwylydd bydwragedd, ond ni allai ddod o hyd i'r rhif hwnnw a chyfeiriwyd yr alwad yn gyflym i staff ward, a oedd yn gallu darparu'r rhif ar unwaith.

Yn gyffredinol, roedd y bydwragedd a gyfwelwyd yn gadarnhaol am oruchwyliaeth a cheir cefnogaeth barhaus i oruchwyliaeth grŵp. Roedd rhai bydwragedd a Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu cynnig enghreifftiau penodol o ddysgu a rannwyd o fewn goruchwyliaeth grŵp a nodi materion a oedd yn annhebygol o gael eu codi yn y fformat un i un ac a oedd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Er bod yr holl fydwragedd yn ymwybodol bod newidiadau i oruchwyliaeth ar fin cael eu gwneud, prin oedd yr ymwybyddiaeth o fanylion model y dyfodol. Byddai o fudd codi proffil y newid sydd ar fin cael ei wneud, er bod y manylion yn aneglur. Roedd synnwyr cryf gan y Goruchwylwyr Bydwragedd bod y bwrdd iechyd yn cefnogi goruchwyliaeth ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Gan ragweld y newid i swyddogaeth y Goruchwylydd Bydwragedd yn eirioli dros fenywod, mae Goruchwylwyr Bydwragedd eisoes yn paratoi ar gyfer y cyfnod pontio trwy nodi sut y gallant gynorthwyo bydwragedd i gynorthwyo menywod yn uniongyrchol, heb gyfranogiad wyneb yn wyneb, pan fydd ei chynllun genedigaeth y tu allan i lwybrau arferol y bwrdd iechyd.

Mae'n ymddangos bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn uned gref a chadarnhaol, sy'n darparu cymorth gwerthfawr i fydwragedd a menywod ar draws y bwrdd iechyd. Mae'r broses ar gyfer disodli goruchwyliaeth statudol yn dal i ddatblygu, ond mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymddangos yn hyderus o ymrwymiad eu bwrdd iechyd i oruchwyliaeth ac i'r dyfodol.

# 9 Crynodeb o Argymhellion

| Cydymffurfiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth |
|---|
| Trafodwyd y ddarpariaeth o oruchwyliaeth effeithiol gan yr AGLl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro ei bod yn sicr bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn y bwrdd iechyd a bod ganddi weithdrefn adrodd gynhwysfawr i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro iddi gael ei chalonogi gan y ffordd y mae'r bwrdd iechyd a'r AGLl yn gweithio gyda'i gilydd a bod y craffu allanol a ddarperir gan yr AGLl yn gysur ac yn galluogi natur agored a gonestrwydd wrth ddatrys pethau.<br><br>O drafod ymhellach ynghylch uwchgyfeirio pryderon gan yr AGLl i sicrhau arfer bydwreigiaeth diogel yn y sefydliad, dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro ei bod o'r farn fod yr AGLl yn effeithiol a'i bod wedi ei hargyhoeddi gan brofiad diweddar. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro wedi canfod fod yr AGLl yn gefnogol o ran gwneud gwelliannau ac atal problemau tebyg rhag codi eto. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro hefyd nad oedd yn teimlo'n sicr ynghylch dyfodol goruchwyliaeth, gan nad oedd y model yn gyflawn eto ac felly roedd yn anodd cynnig barn arno.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod yn fodlon bod y tîm Goruchwylwyr |

Bydwragedd lleol yn codi pryderon yn effeithiol a bod ganddi berthynas waith dda â nhw. Roedd tystiolaeth fod cyfarfodydd misol wedi cael eu hailgyflwyno rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd a dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r swyddogaeth Goruchwylydd Bydwragedd yn ystod y flwyddyn gynt.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn sicr bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi dod yn fwy rhyngweithiol â phrosesau llywodraethu'r sefydliad a bod eu dealltwriaeth o'r Cod yn dda; cefnogwyd hyn gan yr uwch-fydwragedd a'r fydwraig risg glinigol.

Nid oedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn gallu rhannu union ganran y bydwragedd yn y sefydliad a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, ond roedd yn sicr ei fod yn agos at 100%. Hysbyswyd y tîm archwilio gan y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol wedi cynorthwyo bydwragedd yn effeithiol trwy ail-ddilysu, gan gynnal gweithdai ym mhob ardal, gan gynnwys lleoliadau gwledig.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn teimlo bod cyfathrebiad yn ystod y broses ymchwilio goruchwyliaeth wedi gwella a'i bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i oruchwyliaeth ac yn awyddus i gefnogi ei llwyddiant yn y dyfodol.

Yn dilyn ymlaen o raglen archwilio 2015-16, chwiliwyd am wybodaeth i gynnig tystiolaeth fod y meysydd i'w gwella canlynol a nodwyd wedi cael sylw:

- Gwell ymwybyddiaeth o rif cyswllt Goruchwylwyr Bydwragedd Cymru Gyfan yn y 'ganolfan alwadau' (switsfwrdd)
- Datblygu Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, trwy wefan neu grŵp ar-lein efallai
- Dylid gwneud rhif cyswllt Goruchwylwyr Bydwragedd Cymru Gyfan yn fwy amlwg, os nad yr unig rif ar bosteri a thaflenni yn yr ysbyty a'r Unedau Dan Arweiniad Bydwreigiaeth
- Rhyngweithio gwell gyda bydwragedd dan hyfforddiant.

Canfuwyd tystiolaeth fod dau o'r meysydd hyn wedi eu gwella, ond nid oedd ymwybyddiaeth switsfwrdd y sefydliad o rif ffôn ar-alwad Cymru gyfan wedi gwella ac nid oedd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi cael ei ddatblygu eto. Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod yn gobeithio sefydlu grŵp ar-lein a'i bod yn meincnodi gydag ardaloedd eraill.

O'r chwech o Reolau a Safonau Bydwragedd a archwiliwyd, roedd cydymffurfiad â phedwar ac roedd angen gwella dau. Trafodwyd perfformiad Cymru gyfan o ran ymchwiliadau yn ystod yr archwiliad. Dim ond un o'r tri oedd wedi eu cwblhau yn unol â'r amserlen a argymhellir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cynhaliwyd trafodaethau yn ystod yr archwiliad ar y rhesymau pam nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru yn bodloni'r targed 60 diwrnod ar gyfer cwblhau ymchwiliadau. Un o'r ffactorau y credir sy'n cyfrannu yw nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd newydd a ddyrchafwyd i ymarfer ac sydd angen cymorth ychwanegol felly i ddarparu adroddiadau yn unol â'r safon uchel angenrheidiol. Ystyrir bod yr oedi o ran derbyn offer TG fel gliniaduron hefyd wedi cael effaith ar brydlondeb cwblhau adroddiadau gan Oruchwylwyr Bydwragedd a ddyrchafwyd i ymarfer, gan fod angen

iddynt deithio i swyddfeydd Llywodraeth Cymru i gael mynediad at y dogfennau ymchwilio. Uwchgyfeiriwyd yr oedi cyn dyrannu gliniaduron a'r potensial i oedi cwblhad ymchwiliad i AGIC fel risg. Gan na fu unrhyw newid i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ystod y flwyddyn gynt, ni ellid priodoli'r rhesymau hyn i'w perfformiad.

### Arfer Bydwreigiaeth

Cafwyd adborth cadarnhaol gan chwech o fenywod ar eu profiad o'r ddarpariaeth o ofal bydwreigiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Dywedodd un fenyw iddi allu derbyn ei holl ofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod sawl beichiogrwydd.

Siaradodd y tîm archwilio gyda chynrychiolydd Coleg Brenhinol y Bydwragedd hefyd, a awgrymodd y byddai rhagor o wybodaeth am oruchwyliaeth yn ddefnyddiol i fydwragedd dan hyfforddiant. Dywedodd y cynrychiolydd mai nod goruchwyliaeth oedd cefnogi ac amddiffyn menywod a babanod ac roedd yn falch o glywed y byddai'r model newydd wedi ei seilio mwy ar gynorthwyo bydwragedd i gynorthwyo menywod.

### Sefydliadol

Nodwyd dau faes o bryder gan yr AGLl yn ystod yr archwiliad a hysbyswyd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro a'r Pennaeth Bydwreigiaeth amdanynt yn uniongyrchol:

- Gwahanu mamau a babanod yn dilyn toriad Cesaraidd yn uned famolaeth Bronglais

- Y sefydlogi ad hoc o fabanod gan fydwragedd yn uned famolaeth Bronglais, tan y gellir eu trosglwyddo i uned fabanod gofal arbennig.
  Ystyriwyd bod cynnal sgiliau bydwreigiaeth yn y maes arbenigedd hwn, hyfforddiant priodol a defnydd o amser bydwreigiaeth i gyflawni dyletswyddau nad ydynt yn rhai bydwreigiaeth yn bryder i'r AGLl.

Gofynnodd yr AGLl am ragor o sicrwydd y byddai'r materion hyn yn cael eu hadolygu ac yn cael sylw. Cytunodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro a'r Pennaeth Bydwreigiaeth y byddent yn ystyried y pryderon a godwyd ac yn hysbysu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Lindsey Hilldrup, am yr holl gamau a gytunwyd.

## 10 Monitro

Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i'r AGLl o fewn chwe wythnos o dderbyn yr adroddiad hwn a'r argymhellion. Os oes unrhyw feysydd lle ceir diffyg

cydymffurfiad, dylid diweddaru'r cynllun gweithredu ar gyfer y rhain bob tri mis a'i gyflwyno i'r AGLl eu harchwilio ar gyfer cynnydd. Ar ôl diddymu statud, a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth 2017, bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn cael ei drosglwyddo i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Nodwyd y meysydd canlynol o arfer da gan dîm archwilio'r AGLl:

- Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cyfnerthu'n dda ac yn gweithio'n effeithiol
- Adroddir bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gefnogol
- Tystiolaeth dda o gynorthwyo bydwragedd dan hyfforddiant drwy'r cyfnod pontio i fod yn gofrestredig
- Menywod yn dod yn fwy ymwybodol o oruchwyliaeth
- Adborth cadarnhaol gan ddwy fenyw a oedd wedi defnyddio Goruchwylwyr Bydwragedd ac wedi cael profiad o ymyrraeth gadarnhaol.

Amlygwyd yr argymhellion canlynol gan dîm archwilio'r AGLl fel meysydd i'w gwella:

- Mae angen i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ddathlu eu llwyddiannau'n fwy agored
- Y Goruchwylwyr Bydwragedd i gefnogi bydwragedd i weld eu hunain fel un bwrdd iechyd ac nid tri safle unigol
- Goruchwylwyr Bydwragedd i hysbysu bydwragedd y bydd goruchwyliaeth yn newid yn y dyfodol, nid yn 'dod i ben'
- Byddai rhagor o hysbysfyrddau goruchwyliaeth o fudd i fenywod a'u teuluoedd
- Dylai gwefan y bwrdd iechyd gael ei diweddaru i gynnwys dolen i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac adroddiadau blynyddol yr AGLl
- Dylai'r Goruchwylwyr Bydwragedd gefnogi gweithrediad Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth.

## 11. Casgliad

Mae'r AGLl yn parhau i fod yn ddiolchgar i'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd, blaenorol a phresennol, am eu mewnbwn a'u hymrwymiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i gynorthwyo bydwragedd i gynorthwyo menywod.

Hoffai'r AGLl ddiolch hefyd i Sue Jose, sy'n gadael ei swydd fel Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ym mis Hydref 2016, a hoffem groesawu Lindsey Hilldrup, a fydd yn cymryd ei swydd.

Nid oes amheuaeth mai'r her fwyaf i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol ar draws y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fu cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r swyddogaeth tra bod newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae'r AGLl a'r Tasglu yng Nghymru yn parhau i fod yn barod i arwain y ffordd ymlaen gyda model newydd ar gyfer goruchwylio, gan adeiladu ar lwyddiannau cyfredol a chymorth cenedlaethol i gynnal rhagoriaeth mewn arfer clinigol.

# 12. Atodiadau

## 12.1 Atodiad 1 – Rhaglen Archwilio'r Awdurdod Goruchwylio Lleol

Rhaglen ar gyfer Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** 4 **Hydref 2016**
**Lleoliad: Uned Famolaeth Gwenllian, Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, SY23 1ER**

| | | **Diwrnod 1** |
|---|---|---|
| **Rhif** | **Amser** | **Gweithgaredd** |
| **1** | 10.00 | **Cyrraedd a Phaned** |
| **2** | 10.30 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 16-17 a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol a nodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>(Cynadledda fideo i gael ei drefnu gyda Chaerfyrddin a Llwynhelyg yn ôl yr angen) |
| **3** | 11.00 | Cyflwyniad a bwrdd darlunio trosolwg 15 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol, gan gynnwys:<br><br>• Crynodeb o gynnydd o ran cyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2016-17<br>• Enghreifftiau o Arfer Da a llwyddiannau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol<br>• Enghreifftiau o ddysgu'r gwersi / cwblhau'r cylch o ymchwiliadau goruchwylio<br>• Meincnodi yn erbyn gwersi a ddysgwyd gan Guernsey a Kirkup<br><br>Sesiwn Cwestiwn ac Ateb 15 munud |
| **4** | 11.30 | **Egwyl** |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | 11.45 | Y tîm adolygu *i gyfarfod* a/neu wneud cyswllt ffôn â defnyddiwr gwasanaethau mamolaeth<br>• Pennaeth Bydwreigiaeth – Julie Jenkins<br>• Bydwraig arweiniol glinigol a gweithredol –Helen Jones<br>• Bydwragedd Cymunedol<br>• Bydwragedd sydd newydd gymhwyso<br>• Taith gerdded gan gynnwys ymweliadau â'r holl fannau clinigol gan gynnwys y Clinig Ôl-enedigol *(ymweliad bore yn angenrheidiol)*<br>• Uned Dan Arweiniad Bydwreigiaeth |
| | 1pm | **Cinio** |
| **6** | 1.30 | • Bydwragedd Ysbyty Bronglais<br>• Defnyddiwr gwasanaeth |
| | 2.30 | Paned ac adolygiad o'r diwrnod yn yr Uned Dan Arweiniad Bydwreigiaeth |

## Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Rhaglen ar gyfer Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad: 5 Hydref 2016**
**Lleoliad: Ward Dinefwr, Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin**

| | | **DIWRNOD 2** |
|---|---|---|
| **1** | 09.30 | Cyrraedd a phaned |
| **2** | 10.00 – 13.00 | Y tîm adolygu i gyfarfod<br>• Bydwraig Llywodraethu Mamolaeth / Risg Glinigol y Bwrdd Iechyd<br>• Tîm Rheoli'r Uwch Fydwragedd<br>• Bydwragedd Cymunedol<br>• Bydwragedd dan hyfforddiant<br>• Cyswllt CIC – Sam Dentton, Dirprwy Brif Swyddog Hywel Dda<br>• Taith gerdded o gwmpas yr Uned Dan Arweiniad Bydwreigiaeth<br>• Defnyddiwr Gwasanaeth<br><br>*Egwyl ar gyfer lluniaeth yn ôl y gofyn* |
| **3** | 11.30 | Tîm Ymweld yr AGLl i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Nyrsio Mandy Davies a'r Pennaeth Bydwreigiaeth Julie Jenkins<br><br>*Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn swyddfa Julie Jenkins, Ward Teilo, Ysbyty Glangwili.* |
| **4** | 13.00 | Tîm Adolygu'r AGLl i grynhoi canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer adroddiad i'r Pennaeth Bydwreigiaeth |
| **5** | 13.30 | Rhoi adborth i Oruchwylwyr Bydwragedd lleol |

## 12.2 Atodiad 2 – Holiadur yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

**Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd
Hydref 2016

| Cyfweliad Goruchwylydd Bydwragedd | Tystiolaeth a Sylwadau'r Tîm Adolygu |
|---|---|
| Rheol 4.<br>Hysbysiadau gan yr AGLI ydych chi'n rheoli'r broses Bwriad i Ymarfer yn unol â'r broses gyfredol? | Tystiolaeth:<br>Dechreuwyr newydd<br>Ymadawyr<br>Trosglwyddiadau<br>Diddymu Bwriad i Ymarfer<br>Cronfa ddata'r AGLI – cyflwyniad misol |
| Ymateb | Sylwadau: |
| Rheol 5<br>Cwmpas ymarfer<br>Sut ydych chi'n cefnogi bydwragedd i gydymffurfio â Rheol 5; eu cwmpas ymarfer | Tystiolaeth<br>Goruchwyliaeth grŵp<br>Cefnogi bydwragedd i gynnig dewis i fenywod<br>Cefnogi bydwragedd gyda PP yr AGLI/LAP/myfyrdod<br>Pennau bwrdd<br>Bydwragedd mewn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â bydwreigiaeth |

| | |
|---|---|
| Ymateb | Sylwadau |
| Rheol 6 Cofnodion<br>A allwch chi ddweud wrthym am eich cynllun i drosglwyddo a/neu archifo cofnodion yn barod ar gyfer cael gwared ar oruchwyliaeth statudol. | Tystiolaeth<br>Caiff cofnodion eu storio'n ddiogel<br>Mae cofnodion yn cael eu paratoi i'w trosglwyddo/sganio a'u lanlwytho |
| Ymateb | Sylwadau |
| Rheol 7<br>Mae goruchwyliaeth bydwragedd wedi ei chysylltu'n agos â llywodraethu clinigol a dylai fod yn ganolog i brosesau llywodraethu yn yr AGLI. A allwch chi ddarparu manylion sut yr ydych yn bodloni'r safon hon | Tystiolaeth<br>Presenoldeb mewn cyfarfodydd rheoli risgiau clinigol, y fforwm wardiau esgor, cyfarfod adolygu Datix, ymchwiliadau ar y cyd<br>Adolygiadau o ddigwyddiadau anffafriol difrifol, darpariaeth o hyfforddiant gorfodol |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| Rheol 7 – Llywodraethu<br>A ydych chi'n teimlo y gallwch uwchgyfeirio pryderon i'r:<br>Sefydliad<br>Yr AGLI<br>A ydych chi'n teimlo y ceir ymateb priodol i'ch pryderon? | Tystiolaeth |
| Ymateb | Sylwadau |
| Rheol 9<br>Sut ydych chi'n sicrhau mynediad at y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd dan hyfforddiant<br>A sut ydych chi'n cefnogi'r cyfnod pontio o fod yn fyfyriwr i fod yn gofrestredig | |
| Ymateb | Sylwadau |
| Rheol 10<br>Cyhoeddi gweithdrefnau – ymchwiliadau goruchwylio<br>A ydych chi'n credu eich bod yn barod o ran addysg a hyfforddiant i gynnal ymchwiliadau yn unol â Rheol 10? | Tystiolaeth<br>Proses<br>Ysgrifennu adroddiadau<br>Mynediad at Hyfforddiant<br>Mynediad at systemau TG |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cyfweliad Pennaeth Bydwreigiaeth** | |
| A ydych chi'n credu bod eich timau Goruchwylwyr Bydwragedd yn codi pryderon yn briodol?<br>Os nad ydych, a allwch chi awgrymu sut y gellid gwella hyn? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| Gan ystyried proses ymchwilio'r AGLI. Pa mor fodlon ydych chi gyda:<br>• Chyfathrebiad gan y Goruchwylydd Bydwragedd sy'n ymchwilio<br>• Cyfathrebiad â'r Goruchwylydd Bydwragedd penodol/cefnogol<br>• Cysylltiadau rhwng prosesau'r AGLI a'r sefydliad | |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| A ydych chi'n cael eich hysbysu am themâu a thueddiadau sy'n deillio o sesiynau goruchwyliaeth grŵp? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi'n fodlon bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhyngweithio'n effeithiol â phroses lywodraethu'r sefydliad? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| Beth yw eich cydymffurfiad presennol o ran presenoldeb bydwragedd mewn hyfforddiant gorfodol? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| Sut mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cefnogi ailddilysiad i fydwragedd yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| | |
| Pa broblemau ydych chi'n credu sy'n bodoli i'r bwrdd iechyd wrth bontio o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio dan arweiniad cyflogwr (bwrdd iechyd)? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| **Cyfweliad Cyfarwyddwr Nyrsio** | |
| A ydych chi'n sicr bod gan yr AGLI weithdrefn adrodd gynhwysfawr i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i sicrhau eu bod yn cael eu rhybuddio am yr holl risgiau sy'n gysylltiedig ag adroddiadau andwyol o waith monitro allanol? | Rheol 7<br>Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| | |
| A allwch chi gadarnhau y gall Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl gyflawni ei swyddogaeth yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi'n sicr o gynaliadwyedd y model goruchwylio presennol yn eich bwrdd iechyd ? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi'n credu bod yr AGLl yn effeithiol o ran codi ac uwchgyfeirio pryderon ac yn cyflawni ei swyddogaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch arfer bydwreigiaeth yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| | |
| A ydych chi'n sicr o gynaliadwyedd y model goruchwylio presennol yn eich bwrdd iechyd? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| Pa broblemau ydych chi'n credu sy'n bodoli i'r bwrdd iechyd wrth bontio o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr (bwrdd iechyd)? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn eich sefydliad ar ôl cael gwared ar oruchwyliaeth statudol? | |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| **Bydwragedd ac Uwch Fydwragedd** | |
| A yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg yn yr amgylchedd clinigol? Sut fyddech chi'n gwybod ble yn y bwrdd iechyd y gallai Goruchwylydd Bydwragedd fod yn bresennol? Sut fyddech chi'n cysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd y tu allan i oriau? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi'n ymwybodol sut y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn cefnogi ailddilysiad? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi'n ymwybodol o sut y mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyd-fynd â phroses lywodraethu'r bwrdd iechyd? | |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| Beth yw eich dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr (bwrdd iechyd)? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| Pa broblemau ydych chi'n credu sy'n bodoli i'r bwrdd iechyd wrth bontio o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr (bwrdd iechyd)? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn eich sefydliad ar ôl cael gwared ar oruchwyliaeth statudol? | |
| Ymateb | Sylwadau |

| | |
|---|---|
| **Bydwragedd dan Hyfforddiant** | |
| A allwch chi ddisgrifio swyddogaeth y Goruchwylydd Bydwragedd a'r AGLI? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â Goruchwylydd Bydwragedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Os felly, am ba reswm? | |
| Ymateb | Sylwadau |
| A ydych chi'n gwybod sut i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd? | |
| Ymateb | Sylwadau |

| A ydych chi'n ymwybodol o'r gofyniad statudol presennol i bob bydwraig fod â Goruchwylydd Bydwragedd penodol? | |
|---|---|
| Ymateb | Sylwadau |
| Beth yw eich dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr (bwrdd iechyd)? | |
| Ymateb | Sylwadau |

**Rhestr wirio adolygwyr lleyg ar gyfer ymweliadau archwilio**

Nod y ddogfen hon yw galluogi adolygwyr lleyg i gynnal eu hymweliadau archwilio mewn ffordd sy'n gyson o fewn y tîm ac yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar y canfyddiadau o archwiliad 2015/16 ac ymgorffori'r newidiadau yn y dyfodol sy'n hysbys i oruchwyliaeth bydwragedd. Er bod y rhestr wirio hon yn trafod nifer o feysydd, disgwylir y bydd adolygwyr lleyg hefyd yn cynnig sylwadau ar unrhyw beth arwyddocaol y maent yn credu sydd angen ei amlygu yn ogystal â chynnwys y rhestr wirio hon.

Ceir saith adran i'r rhestr wirio hon:
Paratoi cyn yr archwiliad
Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd
Cwestiynau i fydwragedd
Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd

Cwestiynau i uwch reolwyr
Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr
Arsylwadau ar yr amgylchedd

**Paratoi cyn yr archwiliad**

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd am oruchwylio bydwragedd.

Ai dyna'r rhif ar-alwad cywir?

A oes disgrifiad eglur o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod?

A oes dolen i wefan yr AGLI (AGIC)?

A oes dolen i'r daflen "Cyflawni i chi"?

Dewiswch un o'r lleoliadau lle darperir gwasanaethau mamolaeth gan y bwrdd iechyd ar hap, a ffoniwch y switsfwrdd i ofyn am y rhif ar-alwad ar gyfer y goruchwylydd bydwragedd.

A roddwyd y rhif ar-alwad cywir i chi?

**Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

Cyflwyno ein hunain ac esbonio'r broses archwilio.

1. Beth yw eich barn ar y gofal yr ydych wedi ei dderbyn gan fydwragedd trwy gydol eich beichiogrwydd a'r enedigaeth?

2. A oes bydwraig sydd wedi bod yn arbennig o gynorthwyol a beth wnaeth e / hi a oedd yn arbennig o gynorthwyol?
   Os enwir y fydwraig, a allwn ni rannu'r adborth hwn gydag ef / hi?

3. A oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid, yn seiliedig ar eich profiad?

4. A oes gennych chi neu a fu gennych chi unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwragedd yr ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â nhw?

**Os mai'r ateb** i 4 yw **oes/do**, ewch i C4a – 4f, os mai'r ateb yw **nac oes/naddo**, ewch i C5

4a A ydych chi wedi codi eich pryderon ag unrhyw un? Os mai'r ateb yw **naddo, ewch i 4d**
4b Os felly, pwy?
4c Sut wnaethoch chi benderfynu codi eich pryder gyda'r unigolyn hwnnw?
4ch A oeddech chi'n fodlon â'r canlyniad?

Os oedd gennych bryderon ond na wnaethoch eu codi ag unrhyw un

4d A oeddech chi eisiau codi eich pryder?
4dd Beth wnaeth eich atal rhag dweud wrth rywun am eich pryder?
4e A ydych chi wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd?
4f Esboniwch y swyddogaeth: a hoffech chi siarad â Goruchwylydd Bydwragedd am eich profiad nawr?

5. Dychmygwch fod gennych chi bryder, er enghraifft eich bod chi eisiau math penodol o gynllun genedigaeth a bod y fydwraig yn gwrthod ei drafod neu'n bod yn negyddol iawn amdano, beth fyddech chi wedi ei wneud?

6. Pe baech chi wedi siarad â rhywun am eich pryder, beth fyddech chi eisiau iddo ei wneud amdano?

**Cwestiynau i Fydwragedd**

A ydych chi wedi cael adolygiad goruchwylio blynyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

A gwblhawyd eich adolygiad goruchwylio blynyddol yn ystod sesiwn goruchwylio grŵp?

Os felly, faint ohonoch chi oedd yn rhan o'ch goruchwyliaeth grŵp?
A oedd amrywiaeth o fydwragedd yn yr oruchwyliaeth?

Beth oedd o gymorth i chi yn yr oruchwyliaeth grŵp?

A oedd unrhyw beth yr oeddech chi'n credu y gellid fod wedi ei wella?

Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp ydych chi wedi eu mynychu dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

A ydych chi'n teimlo'n fwy neu'n llai cadarnhaol am oruchwyliaeth grŵp nawr nag ar ôl eich profiad cyntaf o oruchwyliaeth grŵp?

Beth ydych chi'n credu bu'r fantais fwyaf o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp?

A ydych chi wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwylydd Bydwragedd i gysylltu â Goruchwylydd yn ystod y 6 mis diwethaf?
Os felly, beth oedd eich barn ar y profiad? A wnaeth hyn ddatrys eich problem ar y pryd?

Fel y gwyddoch, mae goruchwyliaeth yn newid yn y gwanwyn. Pa elfennau o oruchwyliaeth fel y mae nawr yr hoffech eu gweld yn cael eu cadw?

A oes unrhyw beth yr hoffech chi i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

A oes gennych chi unrhyw bryderon am y model goruchwylio newydd dan arweiniad y cyflogwr?

Pa mor dda ydych chi'n credu y mae paratoadau ar gyfer y newid i'r trefniadau newydd yn mynd?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud yr ydych chi'n credu sy'n arfer arbennig o dda?
A allwn ni rannu eich adborth â'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

Pa ran ydych chi'n gweld y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei chwarae o ran helpu i leihau risg a dysgu gwersi o ymchwiliadau?

**Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

Pryd ydych chi'n cynnig goruchwyliaeth grŵp?

Beth ydych chi'n credu yw manteision goruchwyliaeth grŵp?

A oes unrhyw beth y byddech chi'n ei newid?

A allwch chi roi enghraifft o rywbeth a drafodwyd yn ystod goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad?

A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud yr ydych chi'n credu sy'n arfer arbennig o dda?

Pa ran ydych chi'n chwarae o ran helpu i leihau risg a dysgu gwersi o ymchwiliadau?

O ystyried y newid arfaethedig i fodel goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr, beth ydych chi'n credu yw'r manteision i
a. Oruchwylwyr Bydwragedd
b. Bydwragedd
c. Menywod a'r cyhoedd yn gyffredinol

A oes gennych chi unrhyw bryderon am y newidiadau a sut y maent yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

Pa mor dda ydych chi'n credu y mae paratoadau ar gyfer y newid i'r trefniadau newydd yn mynd?

Beth ydych chi'n credu dylai fod ar waith i ddisodli'r cymorth yr ydych chi'n ei gynnig i fenywod?

**Cwestiynau i Uwch Reolwyr**

Pa mor wybodus ydych chi am yr hyn sy'n digwydd gyda goruchwyliaeth nawr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

Beth ydych chi'n ei ystyried fel yr heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol nawr ac yn y dyfodol?

Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu cynnig a sut wnaiff y rhain wella neu newid yn y dyfodol?

Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cefnogi menywod a fyddai'n cysylltu â goruchwylydd bydwragedd ar hyn o bryd yn y dyfodol?

**Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Pa gyswllt sydd gennych chi gyda Goruchwylwyr Bydwragedd ar hyn o bryd?

Pa mor effeithiol fyddech chi'n dweud yw goruchwylwyr o ran cynorthwyo dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu ddod i delerau â phrofiadau anodd?

A ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i oruchwyliaeth bydwragedd?

Beth ydych chi'n credu yw manteision y model arfaethedig, yn enwedig o ran menywod a'u teuluoedd?

A oes gennych chi unrhyw bryderon am y newidiadau arfaethedig?

Beth ydych chi'n credu sydd ei angen ar fenywod i sicrhau y gallant wneud eu dewisiadau cytbwys eu hunain a chael cymorth pan fo pethau wedi bod yn anodd?

**Arsylwadau ar yr amgylchedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ble y'i gwelwyd | | | | |
| A oes gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd wedi ei harddangos yn eglur mewn mannau cyhoeddus? | | | | |
| A yw'r wybodaeth yn cynnwys y rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir? | | | | |
| A yw swyddogaeth y Goruchwylydd Bydwragedd wedi ei disgrifio'n gywir yn y wybodaeth a arddangosir? | | | | |
| A oes esboniad eglur o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â'r Goruchwylydd Bydwragedd? | | | | |
| A yw taflen Cymru gyfan am Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael mewn mannau cyhoeddus? | | | | |
| Sylwadau ychwanegol ar amlygrwydd goruchwyliaeth | | | | |
| Sylwadau ychwanegol ar yr amgylchedd | | | | |

## 12.3 Atodiad 12.3 – Holiadur yr Adolygydd Lleyg

**Paratoi cyn yr archwiliad** **Bwrdd Iechyd:**

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd am Oruchwylio Bydwragedd.

Ai dyna'r rhif ar-alwad cywir? Ie ☐ Nage ☐

A oes disgrifiad eglur o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud i fenywod? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes dolen i wefan yr AGLl (AGIC)? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes dolen i'r daflen "Cyflawni i chi"? Oes ☐ Nac oes ☐

**Nodiadau**

Dewiswch un o'r lleoliadau lle darperir gwasanaethau mamolaeth gan y bwrdd iechyd ar hap, a ffoniwch y switsfwrdd i ofyn am y rhif ar-alwad ar gyfer y goruchwylydd bydwragedd.

**Lleoliad a Ffoniwyd:** **Rhif a Ddefnyddiwyd:**

A roddwyd y rhif ar-alwad cywir i chi? Do ☐ Naddo ☐

**Nodiadau**

**Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

**Bwrdd Iechyd:** **Lleoliad:**

1. Ble / sut ydych chi wedi derbyn eich gofal yn ystod eich beichiogrwydd? A ydych chi wedi bod yn hapus gyda'r gofal hwn?

2. A oes unrhyw beth a oedd yn dda iawn am eich gofal? Neu unrhyw un sydd wedi bod yn arbennig o gynorthwyol?

3. A oes unrhyw beth y gellid fod wedi ei wneud yn well?

4. A oes gennych chi unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwragedd yr ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â nhw?

5. Pe bai gennych chi broblem gyda bydwraig, neu eich gofal yn gyffredinol, a ydych chi'n gwybod at bwy / i ble allech chi fynd i gael cymorth / cyngor?

6. A ydych chi erioed wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd? Esboniwch pwy / beth ydyn nhw a'r hyn y gallant ei wneud. Rhowch wybodaeth am sut i ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn y bwrdd iechyd / lleoliad penodol.

**Cwestiynau i Fydwragedd**

Enw: Swyddogaeth:

**Goruchwyliaeth Grŵp**

1. A ydych chi wedi cael adolygiad goruchwylio blynyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac a chafodd ei gwblhau yn ystod goruchwyliaeth grŵp?

2. Trosolwg o'u goruchwyliaeth grŵp (faint, pa mor drefnus, amrywiaeth o fydwragedd, unrhyw beth o gymorth, unrhyw beth y gellid fod wedi ei wella?)

3. Faint o sesiynau goruchwyliaeth grŵp ydych chi wedi eu mynychu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf? Mwy neu lai cadarnhaol amdanynt? Mantais fwyaf? Agwedd negyddol fwyaf?

**Goruchwyliaeth Ar-alwad**

4. A ydych chi erioed wedi defnyddio rhif ar-alwad y Goruchwylydd Bydwragedd i gysylltu â Goruchwylydd yn ystod y 6 mis diwethaf? Os felly, sut brofiad oedd e? A wnaethoch chi ddatrys eich problem ar y pryd?

**Ymchwiliadau**

5. Beth ydych chi'n credu yw swyddogaeth y Goruchwylydd Bydwragedd mewn ymchwiliadau? Cadarnhaol / negyddol? A ydyn nhw'n helpu i leihau risg / dysgu gwersi? A ydych chi wedi cael profiad uniongyrchol o ymchwiliad?

**Newidiadau i Oruchwyliaeth**

6. A ydych chi'n ymwybodol am y newidiadau i oruchwyliaeth a fydd ar waith erbyn y gwanwyn nesaf? A ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael digon o wybodaeth am y newidiadau? A oes gennych chi unrhyw bryderon am y model goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr newydd? Pa mor dda ydych chi'n credu y mae paratoadau ar gyfer y newid i'r trefniadau newydd yn mynd?

7. Pa elfennau o'r model goruchwylio presennol ydych chi'n credu y dylid eu cadw? A oes unrhyw beth yr hoffech chi i oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

8. A ydych chi'n gwybod sut y bydd menywod yn cael eu cynorthwyo o dan y model newydd?

**Adborth**

9. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud yr ydych chi'n credu sy'n arfer arbennig o dda? A allwn ni rannu eich adborth gyda'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

**Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

**Goruchwyliaeth Grŵp**

1. Sgwrs gyffredinol am eu goruchwyliaeth grŵp, sut y mae wedi ei drefnu, presenoldeb, adborth ac ati.

2. Manteision a heriau goruchwyliaeth grŵp?

3. Enghraifft o rywbeth a drafodwyd yn ystod goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella amddiffyniad y cyhoedd o ganlyniad?

**Ymchwiliadau**

4. Pa ran ydych chi'n ei chwarae o ran helpu i leihau risg a dysgu gwersi o ymchwiliadau?

**Arfer Da**

5. A oes unrhyw beth y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud yr ydych chi'n credu sy'n arfer arbennig o dda?

**Newidiadau i Oruchwyliaeth**

6. Pa mor wybodus ydych chi'n teimlo am y newidiadau i oruchwyliaeth? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu o fewn y sefydliad? Pa mor dda ydych chi'n credu y mae paratoadau ar gyfer y newid i'r trefniadau newydd yn mynd?

7. O ystyried y newid arfaethedig i fodel goruchwylio dan arweiniad y cyflogwr, beth ydych chi'n credu bydd y manteision i:
a. Oruchwylwyr Bydwragedd
b. Bydwragedd
c. Menywod a'r cyhoedd yn gyffredinol

8. A oes gennych chi unrhyw bryderon am y newidiadau a sut y maent yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

9. Beth ydych chi'n credu dylai fod ar waith i ddisodli'r cymorth yr ydych yn ei gynnig i fenywod? A yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer y maes hwn?

**Cwestiynau i Uwch Reolwyr**

1. Pa mor wybodus ydych chi am yr hyn sy'n digwydd gyda goruchwyliaeth nawr a'r cynlluniau ar gyfer gwanwyn 2017 a thu hwnt?

2. Beth ydych chi'n credu yw'r heriau mwyaf o ran darparu goruchwyliaeth effeithiol nawr ac yn y dyfodol?

3. Pa fanteision y mae goruchwyliaeth yn eu cynnig a sut wnaiff y rhain wella neu newid yn y dyfodol?

4. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynorthwyo menywod a fyddai'n cysylltu â goruchwylydd bydwragedd ar hyn o bryd yn y dyfodol?

**Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Enw: Sefydliad:

1. A ydych chi'n gwybod beth yw Goruchwylydd Bydwragedd? A ydych chi / eich sefydliad yn wybodus am Oruchwyliaeth? Pa gyswllt sydd gennych chi / ydych chi wedi ei gael gyda Goruchwylwyr Bydwragedd?

2. A ydych chi'n gwybod pa mor effeithiol yw goruchwylwyr o ran cynorthwyo dewisiadau menywod neu eu cynorthwyo gyda chwynion neu i ddod i delerau â phrofiadau anodd?

3. A ydych chi'n credu fod menywod yn ymwybodol o Oruchwyliaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd?

4. A ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i oruchwyliaeth bydwragedd?

5. Beth ydych chi'n credu yw manteision / anfanteision y model arfaethedig, yn enwedig o ran menywod a'u teuluoedd?

6. Beth ydych chi'n credu sydd ei angen ar fenywod i sicrhau y gallant wneud eu dewisiadau cytbwys eu hunain a chael cymorth pan fo pethau wedi bod yn anodd?

7. Beth ydych chi'n credu yw'r ffordd orau o ddosbarthu gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd?

## Gwybodaeth Goruchwylwyr Bydwragedd ac Arsylwadau ar yr Amgylchedd

| **Lleoliad** | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth Goruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg mewn mannau cyhoeddus? | | |
| Rhif ar-alwad Cymru gyfan cywir? | | |
| Swyddogaeth y Goruchwylydd Bydwragedd wedi ei disgrifio'n gywir yn y wybodaeth? | | |
| Esboniad eglur o amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd? | | |
| Taflen Cymru gyfan am Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael mewn mannau cyhoeddus? | | |
| Sylwadau eraill ar amlygrwydd Goruchwyliaeth / Goruchwylwyr | | |
| Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd | | |